



Plaid | Party of
Cymru | Wales

CYNHADLEDD WANWYN 2017

Glan yr Afon, Casnewydd
Mawrth 3ydd a 4ydd



Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 3
Cyfleoedd i Ymuno â Ni	Tudalen 4
<ul style="list-style-type: none">• Stondin Arddangos• Statws Sylwebydd Arbennig• Cinio'r Gynhadledd• Hysbysebu	
Cyfleoedd Noddi	Tudalen 5
<ul style="list-style-type: none">• Trafodaethau Nodeddig ar y Prif Lwyfan• Cyfarfodydd Ymylol• Noddi Cinio'r Gynhadledd• Noddi'r Derbyniad Diodydd• Cynnig Arbennig	
Mynychu am y Tro Cyntaf – Cynigion Arbennig	Tudalen 7
Rhestr Prisiau	Tudalen 8
Ffurflen Archebu	Tudalen 9



Cyflwyniad

Mae'n bleser gen i atodi gwybodaeth ynghylch cyfleodd noddi ac arddangos yng Nghynhadledd Wanwyn Plaid Cymru ar Fawrth 3ydd-4ydd, 2017. Byddem yn falch iawn i'ch croesawu chi a'ch sefydliad i ymuno â ni yng Nghasnewydd.

Ym mis Mai 2017 mi fydd pobl Cymru unwaith eto yn heidio i'r blychau pleidleisio. Ond yn yr achos hon, yn hanesyddol, llai na hanner y bobl sy'n rhoi croes yn y bocs. Mae'n ofynnol arnom ni ym Mhlaid Cymru i sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio, a'u bod yn pleidleisio drosom ni mewn niferoedd nas welwyd eu tebyg o'r blaen. Dyna sy'n llunio ein nod dros yr etholiadau hyn: mwy o ymgeiswyr nac erioed; mwy o gynghorwyr nac erioed. Fel canlyniad, rydym ni'n disgwyl cynhadledd llawn egni, brwdfrydedd a syniadau. Bydd yn achlysur i'w chofio ar lannau Afon Wysg.

Hyderaf y bydd y wybodaeth amgaeedig yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y gynhadledd ond os ydych angen gwybodaeth bellach peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Bydd Esyllt Meurig ac Emily Cole yn barod i ateb unrhyw gwestiynau ar 02920 475920 neu e-bostiwch esylltmeurig@plaid.cymru / emilycole@plaid.cymru

Dros Gymru,



Gareth Clubb
Prif Weithredwr - Plaid Cymru





Cyfleoedd i ymuno â ni

Stondin Arddangos - Mae lle yn ein Hardal Arddangos yn gosod eich sefydliad yng nghalon ein cynhadledd. Mae stondin arddangos yn rhoi'r cyfle i chi dros y deuddydd i gyfarfod ein haelodau etholedig, aelodau'r Blaid a staff Plaid Cymru. Mae'r stondin arddangos fel arfer yn caniatáu lle am 'pull up/press set' bach a bwrdd 5 troedfedd.

Yn ogystal â safle arddangos, bydd sefydliadau sy'n archebu stondin arddangos yn derbyn-

- 2 x Tocyn Sylwebydd Arbennig, a Llawlyfr y Gynhadledd
- Cael eich rhestru yn Llawlyfr y Gynhadledd

Prisiau yn dechrau o £360

Statws Sylwebydd Arbennig- Mae tocyn Sylwebydd Arbennig yn rhoi mynediad llawn i chi at lawr y Gynhadledd a chyfarfodydd ymylol. Mae hyn yn caniatáu mynediad i chi i'r gynhadledd, cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gynhadledd a chynnig cyfle i ryngweithio a meithrin perthynas gydag aelodau allweddol Plaid Cymru. Prisiau yn dechrau o £205.

Cinio'r Gynhadledd – Cynhelir ar nos Wener 3ydd o Fawrth yn Ngwesty'r Coldra Court. Mae'r cinio yn darparu cyfle i ryngweithio, meithrin perthynas ac yn caniatáu i

drafodaethau'r diwrnod barhau mewn sefyllfa fwy anffurfiol. Mae tocynnau yn costio £65 yr un (neu £55 i aelodau PAC). Neu beth am archebu bwrdd am £600 i hyd at 10 person?

Hysbysebu – Mae hysbysebion yn llawlyfr y gynhadledd yn gyfle delfrydol i roi cydnabyddiaeth i'ch sefydliad yn y Gynhadledd. Mae'r llawlyfr maint A4 hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae cynrychiolwyr ei angen ar gyfer cynhadledd lwyddiannus.

Hysbysebion:

Tudalen lawn £630, Hanner £420, neu Chwarter £210 tudalen liw (hefyd ar gael mewn du a gwyn- £520, £315, £110)

Byddwn angen eich hysbysebion yn y fformat a dimensiwn cywir cyn Chwefror 9fed 2017. Cysylltwch ag emilycole@plaid.cymru i archebu ac i dderbyn meintiau'r hysbysebion.



Cyfleoedd Noddi

Mae gan ein Cynhadledd Wanwyn yn 2017 nifer o gyfleoedd noddi-

Trafodaethau Noddedig ar y Prif Lwyfan– Ar brif lwyfan y gynhadledd, mae trafodaethau noddedig yn caniatáu'r sefydliad sy'n noddi i osod yr agenda ar gyfer dadl yn ystod oriau brig ar lawr y gynhadledd.

Mae sefydliadau sy'n noddi trafodaethau yn manteisio o-

- Hawliau enwi yn gysylltiedig â'r drafodaeth, gan gynnwys cael eich rhestru yn y rhaglen ac amserlen
- Brandio ar y prif lwyfan
- Y cyfle i enwebu siaradwr/aelodau o'r panel i gynrychioli eich sefydliad yn ystod y drafodaeth

Yn 2017 rydym yn cynnig trafodaethau noddedig ar Iechyd, Economi ac Addysg. Rydym yn agored i awgrymiadau ar gyfer union themâu. Mae llefydd ar gyfer trafodaethau noddedig eleni yn brin.

Cysylltwch ag emilycole@plaid.cymru er mwyn trafod unrhyw syniadau sydd gennych ynghylch trafodaethau noddedig.

Prisiau yn dechrau o £1,400

Cyfarfodydd Ymylol – Dyma fforwm delfrydol i ddylanwadu'r agenda, a gwahodd gwesteion i'ch digwyddiad chi yn ystod Cynhadledd Plaid Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd ymylol yn ystod amser brecwast, cinio a gyda'r hwyr. Gallwch gymryd y cyfle i gynnal derbyniad diod, dadl, lansiad adroddiad neu ddigwyddiad rhwydweithio. Nid yw cyfarfodydd ymylol yn cyd-redeg â digwyddiadau prif lwyfan eraill ac maent wastad yn boblogaidd iawn gyda chynrychiolwyr a sylwebwyr arbennig.

Gall cyfarfodydd ymylol fod naill ai yn ddigwyddiadau agored i gynrychiolwyr a sylwebwyr arbennig, neu yn ddigwyddiadau caeedig, gwahoddiad-yn-unig. Gadewch inni wybod pa fath yr hoffech.

Yn ogystal â darparu lleoliad ar gyfer eich cyfarfod ymylol, mae sefydliadau sy'n archebu cyfarfod ymylol hefyd yn derbyn-

- 2 x Tocyn Sylwebydd Arbennig, a Llawlyfr y Gynhadledd
- Cael eich rhestru yn llawlyfr y gynhadledd

Gallwn hefyd ddarparu lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd ymylol.

Prisiau yn dechrau o £360.

Hefyd, fe allwn gynnig lleoliad cyfarfod ymylol llai (ystafell lai), am bris rhatach, yn dechrau o £230.

Cysylltwch ag esylltmeurig@plaid.cymru am fanylion pellach neu i archebu.

Cinio'r Gynhadledd

Cynhelir cinio'r Gynhadledd ar y nos Wener yng Ngwesty'r Coldra Court. Mae'r cinio yn uchafbwynt i nifer o bobl yng nghalendr y Gynhadledd gyda thua 120 o westeion yn mynychu.

Mae sefydliad sy'n noddi'r cinio yn derbyn-

- Hawliau enwi ynghlwm gyda'r cinio, gan gynnwys cael eich rhestru yn y rhaglen, amserlen a deunyddiau hysbysu'r cinio
- Brandio yn neuadd y cinio, ar y fwydlen ac ar fyrddau

- Y cyfle i annerch y gwesteion drwy araith (hyd at 10 munud)
- Prif fwrdd y cinio i gynnwys hyd at 10 person, a 2 docyn ychwanegol

Pris: £6000 neu £7500 gyda derbyniad diodydd wedi'i noddi (gweler isod)

Derbyniad Diodydd cyn Cinio'r Gynhadledd

Mae'r derbyniad diodydd cyn Cinio'r Gynhadledd hefyd ar gael i'w noddi.

Mae'r sefydliad sy'n noddi yn derbyn-

- Hawliau enwi ynghlwm â'r derbyniad, gan gynnwys cael eich rhestru yn y rhaglen, amserlen a deunyddiau hysbysu
- Brandio yn yr ystafell
- Y cyfle i annerch y gwesteion drwy araith fer
- 6 tocyn i'r cinio

Pris: £1800

Cynnig Arbennig

Ceir cyfle arbennig i noddi cinio'r gynhadledd a'r derbyniad diodydd gyda'i gilydd am bris gostyngol. Mae hyn yn golygu mai eich sefydliad chi fydd y noddwr unigryw ar gyfer y noson arbennig hon ac yn cynnwys yr holl fuddiannau noddi a restrir uchod.

Pris: £7500

Mynychu am y Tro Cyntaf – Cynigion Arbennig

Mae Plaid Cymru yn awyddus i ymgysylltu â chynifer o sefydliadau ac unigolion a phosib drwy ein rhaglen cynadledau blynyddol. Mae'r gynhadledd yn cynnig cyfle unigryw i gyfarfod ag aelodau etholedig y Senedd Ewropeaidd, Senedd San Steffan, Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol. Mae'n ddigwyddiad lle y gallwch drafod datblygiadau polisi sy'n effeithio yn uniongyrchol ar eich sefydliad.

Rydym yn deall y gall Cynadledau ymddangos yn heriol i rai sefydliadau sydd heb fynychu cynadledau'r gorffennol. Felly, rydym yn cynnig **'Pecyn Cyflwyno'r Gynhadledd'** i sefydliadau sydd heb fynychu yn y 5 mlynedd diwethaf.

Mae hyn yn sicrhau bod gennych bopeth er mwyn gwneud y gorau o'ch presenoldeb ar ran eich sefydliad.

Rydym yn cynnig -

- Disgownt 20% ar stondin arddangos a thocyn Sylwebydd Arbennig
- Pwynt cyswllt penodol yn arwain at y gynhadledd a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Cyswllt yn y gynhadledd i'ch cefnogi a'ch cyflwyno i aelodau allweddol yn y Blaid
- Os ydych yn dymuno mynychu Cinio'r Gynhadledd, cewch le (a brynwyd) ar fwrdd noddedig

Nodwch ar y ffurflen archeb os ydych yn mynychu'r gynhadledd am y tro cyntaf a hoffech fanteisio ar y 'Pecyn Cyflwyno'r Gynhadledd'

Rhestr Prisiau Cynhadledd Wanwyn 2017			
	Grŵp Pris 1	Grŵp Pris 2	Grŵp Pris 3
Stondin Arddangos (2 ddiwrnod)	£525	£450	£360
Cyfarfod Ymylol (allfrig*)	£650	£525	£360
Cyfarfod Ymylol (amser brig*)	£800	£625	£460
Cyfarfod Ymylol (Ystafell Gyfarfod Fach)	£375	£290	£230
Sylwebydd Arbennig**	£275	£245	£205
Tocyn Cinio	£65	£65	£65
Tocyn Cinio Aelodau PAC	£55	£55	£55
Bwrdd yn y Cinio (hyd at 10 lle)	£600	£600	£600
Hysbyseb yn llawlyfr y Gynhadledd	£630 (tudalen lawn)	£420 (1/2 tudalen)	£210 (1/4 tudalen)

*Allfrig- Brechwast a diwedd prynhawn

*Amser brig- Amser cinio

** Disgownt o 20% os yn mynychu'r gynhadledd am y tro cyntaf

Mae canllawiau ar y grwpiau prisiau gwahanol ar y dudalen nesaf.

Ffurflen Archebu Cynhadledd Plaid Cymru

Cysylltwch gyda ni yn uniongyrchol os gwelwch yn dda ynghylch noddi trafodaeth o'r brif lwyfan ac ar gyfer cyfleoedd noddi eraill.

Sefydliad			
Rhif Elusen (os yn berthnasol)		Rhif Archeb (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad			
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol i'r uchod)			
Enw Cyswllt			
Enwau'r rheiny sydd yn mynychu os yn wahanol i'r uchod			
E-bost		Rhif Ffôn	

Nodwch Statws Sefydliad os gwelwch yn dda-

Grŵp Pris Un

Masnachol/ Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus

Grŵp Pris Dau

Cymdeithasau Proffesiynol / Undebau Llafur / Elusennau Cofrestredig (gyda throsiant blynyddol o £250,000 neu fwy)

Grŵp Pris Tri

Grwpiau cymunedol/Elusennau cofrestredig (gyda throsiant blynyddol llai na £250,000)

Mynychu'r gynhadledd am y tro cyntaf?

IE/NA

Eitem	Nifer	Cyfanswm Cost
Stondin Arddangos		
Cyfarfod Ymylol		
Sylwebydd Arbennig		
Cinio'r Gynhadledd		
Hysbyseb		
	Cyfanswm Archeb	

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....

Dychwelir eich ffurflen archeb os gwelwch yn dda i –
Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Marine Chambers, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL
Neu e-bostiwch esylltmeurig@plaidcymru.org

Nawdd masnachol a Phlaid Cymru

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn rheoleiddio rhoddion i sefydliadau sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y DG. Nid yw'r Ddeddf wedi ei bwriadu i effeithio ar berthynas fasnachol wirioneddol ac nid yw masnachu arferol yn dod dan unrhyw reoleiddio. Felly, ni fydd cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddisgrifir yma yn cael eu trin fel rhodd i Blaid Cymru ac nis cyhoeddir ar y gofrestr rhoddion i bleidiau gwleidyddol.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio

Nid yw unrhyw arian a dderbynnir gan Blaid Cymru fel rhan o gytundeb nawdd masnachol yn cael ei drin fel rhodd gwleidyddol ac nid yw'n arwydd o gefnogaeth i'r Blaid na ganddi. Fodd bynnag, caiff pob sefydliad neu unigolyn a ddaeth i gytundeb masnachol gyda Phlaid Cymru eu henwi ar wahân i roddwyr er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Ceidw Plaid Cymru'r hawl i wrthod unrhyw gais am nawdd ac, ar unrhyw adeg, i dynnu cyfle am nawdd yn ôl. Ymhellach, ni all Plaid Cymru ac ni fydd yn cynnig cyfarfodydd gyda Gweinidogion, arweinyddiaeth y Blaid na phobl yn rhengoedd uchaf y Blaid yn gyfnewid am nawdd.

Diddymu Archeb

Unwaith mae ffurflen archeb wedi'i chwblhau a'i dychwelyd i Blaid Cymru, dylid anfon cais i ddiddymu archeb yn ysgrifenedig. Gwneir unrhyw ad-daliad yn ôl disgresiwn Plaid Cymru.

Hawl Gwrthod

Mae gan Blaid Cymru'r hawl i wrthod unrhyw gais i fynychu Cynadleddau.